

Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**Canllaw cyflym ar gyfer
staff cymorth ac athrawon**



Anghenion gofal iechyd

Beth mae anghenion gofal iechyd yn ei olygu?

Fe fydd angen gofal iechyd tymor byr ar y rhan fwyaf o ddysgwyr ar ryw adeg. Mae hyn yn cynnwys cyflyrau fel haint ar y frest neu asgwrn wedi'i dorri. Yn achos nifer fach o ddysgwyr, fe all eu hanghenion gofal iechyd gael effaith am gyfnod hirach. Pwrpas y canllaw cyflym hwn ydy'ch helpu chi i roi'r cymorth priodol i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, fel eu bod nhw'n gallu cael addysg lawn, gan gynnwys mynd ar dripiâu a chael addysg gorfforol.

Rôl athrawon a staff cymorth

Efallai y bydd gofyn i chi, neu unrhyw aelod arall o'r staff yn yr ysgol, roi cymorth i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Gallai hyn gynnwys cynorthwyo/goruchwyllo wrth roi meddyginiaethau. Fodd bynnag, rhywbeth hollol wirfoddol ydy hyn. I gyflawni'r rôl hon, rhaid ichi dderbyn hyfforddiant priodol a dod mor fedrus ag sydd angen cyn eich bod chi'n gallu cymryd y cyfrifoldeb hwn. Ni ellir gorfodi unrhyw aelod o'r staff i roi neu oruchwyllo meddyginiaeth os nad yw hyn yn rhan o'u contract, amodau a thelerau neu gynllun swydd y mae pawb wedi cytuno arno.

Cynlluniau gofal iechyd unigol

Does dim angen cynllun gofal iechyd unigol ar bob dysgwr ag anghenion gofal iechyd. Fodd bynnag, pan fydd gan ddysgwr anghenion gofal iechyd parhaus neu gyfnodol, yna efallai fod angen cynllun gofal iechyd unigol.

Does dim rhaid i gynlluniau gofal iechyd unigol fod yn gymhleth ond fe ddylen nhw egluro sut i ddiwallu anghenion y dysgwr. Dylai cynlluniau gofal iechyd unigol fod ar gael yn rhwydd i bawb sydd angen cyfeirio atyn nhw, ond ar yr un pryd rhaid parchu preifatrwydd i'r lefelau gofynnol. Dylai pob cynllun gynnwys yr wybodaeth allweddol a'r camau gofynnol i gefnogi'r dysgwr yn effeithiol.




Sut ddylai'r ysgol fy nghefnogi i – a beth sydd angen i mi ei wneud?

Dylai'r ysgol eich helpu chi i:

- ddeall polisiâu a threfniadau anghenion gofal iechyd yr ysgol yn llwyr
- gwybod pa ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd mwy difrifol neu gronig, a beth i'w wneud mewn argyfwng
- bod yn ymwybodol o arwyddion, symptomau, pethau sy'n achosi'r problemau a gweithdrefnau argyfwng cyflyrau meddygol cyffredin sy'n bygwth bywyd
- bod yn ymwybodol o sut mae anghenion gofal iechyd yn gallu effeithio ar ymddygiad y dysgwyr a'u gallu i ddysgu
- teimlo'n hyderus wrth ichi gefnogi'r dysgwyr ag anghenion gofal iechyd
- deall egwyddorion cynwysoldeb a'u rhoi ar waith.

Mae'n rhaid ichi:

- ddeall gweithdrefnau argyfwng yr ysgol a bod yn barod i gymryd y camau priodol
- gwrandao ar bryderon y dysgwyr (neu eu ffrindiau) os ydyn nhw'n teimlo'n sâl ar unrhyw adeg, ac ystyried yr angen am gymorth meddygol
- helpu sicrhau bod y rhieni'n gwybod sut mae eu anghenion gofal iechyd yn effeithio ar y dysgwr, gan gynnwys unrhyw ddirywiad, bryderon neu newidiadau i drefn ddyddiol y dysgwr neu'r staff
- helpu sicrhau nad ydy dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu gadael allan o unrhyw weithgareddau y maen nhw eisiau cymryd rhan ynddyn nhw, gan gynnwys unrhyw dripiâu/ymweliadau allanol, heb fod â rheswm wedi'i seilio ar dystiolaeth glir
- helpu sicrhau bod staff newydd neu dros dro yn llwyr ymwybodol o anghenion gofal iechyd y dysgwyr y maen nhw'n eu cefnogi.



Rhoi meddyginiaeth

Rhaid i feddyginiaeth gael ei rhoi fel y cytunwyd yn y cynllun gofal iechyd unigol.

Rhaid i feddyginiaethau ar bresgripsiwn:

- beidio â bod â'u dyddiad wedi dod i ben
- bod â'u cynnwys wedi'i labelu'n gywir
- bod wedi'u labelu ag enw'r dysgwr
- bod â chyfarwyddiadau ysgrifenedig gyda nhw ynglŷn â sut i'w rhoi, y dos a sut i'w storio
- bod yn eu cynhwysydd/pecyn gwreiddiol ar wahân i bwmp neu bin inswlin.

Rhaid i feddyginiaethau heb fod ar bresgripsiwn fod fel yr uchod heblaw bod rhieni'n gallu rhoi cyfarwyddiadau.

Hyfforddiant

Wrth gynorthwyo dysgwyr, ni fydd angen fawr o hyfforddiant ar gyfer y mwyafrif o'r cymorth, ond os oes angen hyfforddiant, rhaid i'r ysgol sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu. Os oes gan ddysgwr anghenion cymhleth, efallai y bydd angen i'r gwasanaethau gofal iechyd a'r awdurdod lleol gyfrannu gan eu bod nhw'n gallu cynghori a chyfeirio at hyfforddiant a chymorth pellach.



Storio meddyginiaethau

- Dylid storio pob meddyginiaeth yn briodol ac yn ddiogel.
- Mae'n bwysig i ddysgwyr wybod lle mae eu meddyginiaeth yn cael ei storio a sut i gael gafael arni.
- Mae'n rhaid i feddyginiaeth frys bob amser fod ar gael yn rhwydd i ddysgwyr sydd ei hangen, yn ystod y dydd neu yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle.

Cadw cofnodion

Fe fydd gan eich ysgol systemau i gofnodi cymorth i roi meddyginiaeth. Mae'n bwysig bod y systemau hyn yn cael eu defnyddio a'u bod nhw'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf oll.

Egwyddorion allweddol

- Dylech chi ddeall egwyddorion cynwysoldeb a'u rhoi ar waith.
- Dylai gwersi a gweithgareddau gael eu cynllunio mewn ffordd sy'n caniatáu i'r rheiny ag anghenion gofal iechyd allu cymryd rhan yn llawn.
- Dylech chi ddeall eich rôl wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, a dylai hyfforddiant priodol gael ei ddarparu.
- Dylech chi deimlo'n hyderus eich bod chi'n gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng gofal iechyd.
- Dylech chi fod yn ymwybodol o anghenion eich dysgwyr trwy rannu cynlluniau gofal iechyd unigol y dysgwyr yn briodol ac yn gyfreithlon.
- Pryd bynnag mae'n briodol, dylid annog a chefnogi'r dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.

Hawliau'r dysgwyr

- Mae gan ddysgwyr yr hawl i ddweud eu dweud ynglŷn â phopeth sy'n effeithio arnyn nhw, ac i gael pobl i gymryd eu barn o ddifrif.
- Mae gan bob dysgwr hawl i gael addysg lawn.
- Mae gan ddysgwyr hawl i gael gwybodaeth am eu hiechyd a'u lles, a hawl i gael llais ynglŷn â'r cymorth y maen nhw'n ei gael tra'u bod nhw yn yr ysgol.



Diolch am ddarllen hwn

Mae'r canllawiau llawn ar y wefan yma:

learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy